Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 14 CHWEFROR 2020, yn Ystafell Gyfarfod y Ganolfan Ddelweddu.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (yn y Gadair); y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd; Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Mr George Ashworth (trwy Skype); Mrs Samantha Blackie; Dr Hazel Davey; Ms Anne Davies (trwy Skype); Mr Tomos Ifan, Llywydd UMCA; Mr Ian MacEachern (trwy Skype); Mr Dhan Ramnatsing, Llywydd UMAber; Mrs Fiona Sharp (trwy Skype); Mr Mark Tweed; Ms Kath Williams; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; a Mr Steve Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Meri Huws; a Mr Richard John.

41. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

   Croesawyd y canlynol i gyfarfod y Cyngor:

   1. Mark Tweed, a ddechreuodd ei gyfnod yn Aelod Annibynnol ar 01 Ionawr 2020; a

   2. Steve Thomas, a ddechreuodd yn swydd Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus y Brifysgol ar 27 Ionawr 2020.

2. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Katie Evans, myfyriwr ar ei thrydedd flwyddyn yn Adran y Gyfraith a Throseddeg;

   2. Melanie Evans, a fu'n Gynorthwyydd Cerdd yng Nghanolfan Gerdd y Brifysgol;

   3. Yr Athro John Wyn Owen CB, Cymrawd er Anrhydedd yn y Brifysgol;

   4. Yr Athro Maldwyn Mills, cyn-aelod o staff yn yr Adran Iaith a Llenyddiaeth Saesneg fel yr oedd ar y pryd; a

   5. Yr Athro Emeritws Glanville Price, cyn Athro Ieithoedd Romáwns yn yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd fel yr oedd ar y pryd.

3. Adolygiad o Lywodraethu Prifysgolion yng Nghymru

   1. Ymhellach i'r diweddariad yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, roedd Gillian Camm wedi cwblhau ei hadolygiad o drefniadau llywodraethu addysg uwch yng Nghymru. Comisiynwyd yr adolygiad ar y cyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y

Prifysgolion, a Chadeiryddion Prifysgolion Cymru, gyda chefnogaeth lwyr y Cyngor Cyllido. Byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 19 Chwefror 2020, a chopïau'n cael eu dosbarthu er mwyn rhoi gwybodaeth i holl aelodau'r Cyngor bryd hynny.

2. Mewn ymateb i adroddiad Gillian Camm, roedd Cadeiryddion Prifysgolion Cymru a Prifysgolion Cymru wedi cytuno ar Siarter Llywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru yn ogystal â chyfres o gamau gweithredu yr oedd pob un o brifysgolion Cymru wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith. Byddai'r Siarter a'r cynllun gweithredu yn cael eu cyhoeddi ar 19 Chwefror 2020, a'u rhannu ag aelodau'r Cyngor.

3. Bydd adroddiad llawnach ynglŷn â'r ffordd y byddai'r Brifysgol yn mynd ati i roi'r camau ar waith yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (Ll&Ch) (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd -y Brifysgol).

4. Sesiwn Wybodaeth

Cyn y cyfarfod ffurfiol, cafodd sesiynau gwybodaeth eu cynnal i aelodau'r Cyngor ynglŷn â chyflogadwyedd; ac ymchwil i'r *Kindertransport* 1938-39 yn y Deyrnas Gyfunol. Byddai copïau fideo o'r sesiynau anffurfiol ar gael trwy safle SharePoint i'r aelodau nad oeddent yn gallu bod yno yn y bore (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

5. Cyfarfod anffurfiol o Aelodau Annibynnol

Cyn cyfarfod ffurfiol y corff llywodraethu, cynhaliwyd cyfarfod anffurfiol rhwng yr aelodau annibynnol a'r Is-Ganghellor. Rhoddwyd crynodeb o'r materion a drafodwyd yn y cyfarfod anffurfiol Cadeirydd. Roedd y cwbl yn gysylltiedig ag eitemau i'w trafod yn y cyfarfod ffurfiol ac fe gaent eu hystyried ymhellach o dan yr eitem briodol ar yr agenda.

6. Trefn Busnes

Er mwyn rhoi digon o amser am drafodaeth strategol ynglŷn ag adnoddau dynol, câi pob eitem arall y byddai angen penderfynu yn eu cylch eu codi'n uwch i fyny'r agenda fel y gellid eu hystyried yn gyntaf.

42. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

43. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2019 (COU1920-079).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

44. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1920-080).

NODWYD

Y diweddariadau a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

45. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-081).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor y cafodd materion eu cymeradwyo gan aelodau trwy ohebiaeth, neu gan y Cadeirydd ar ran yr aelodau.

2. Y mater a gymeradwywyd gan yr aelodau trwy ohebiaeth oedd: ymateb y Brifysgol i Ymgynghoriad y Cyngor Cyllido ynglŷn â datganiad ychwanegol o sicrwydd ansawdd gan gyrff llywodraethol.

3. Y mater a gymeradwywyd gan Gadeirydd y Cyngor ar ran y corff llywodraethu oedd: cyflwyno Adroddiad Cydymffurfio ac Effeithlonrwydd y Cynllun Ffioedd a Mynediad 2018-19 i'r Cyngor Cyllido, ar argymhelliad Gweithgor y Cynllun Ffioedd a Mynediad, a Gweithrediaeth y Brifysgol.

46. GOHEBIAETH

1. <u>Cynllun Ffioedd a Mynediad 2017-18</u>

   NODWYD

   Ar 16 Ionawr 2020, roedd Prif Weithredwr CCAUC wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Cyngor i roi gwybod bod proses y Cyngor Cyllido o fonitro'r graddau y cydymffurfir â Chynllun Ffioedd a Mynediad y Brifysgol am 2017-18, a chloriannu ei effeithlonrwydd, wedi ei gwblhau.

47. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU1920-083).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Croesawodd yr aelodau'r gwelliannau a wnaed wrth gynyddu nifer y ceisiadau Cartref / UE gan israddedigion i astudio yn y Brifysgol. Ond roedd lledaeniad COVID-19 dros yr wythnosau diwethaf yn debygol o effeithio ar waith denu myfyrwyr yn Tsieina. Byddai'r effaith ar brifysgolion eraill sy'n dibynnu mwy ar ddenu myfyrwyr o Tsieina yn debygol

hefyd o arwain at gylch clirio hyd yn oed yn fwy cystadleuol eleni, wrth i'r sefydliadau hynny geisio llenwi'r lleoedd sydd ganddynt dros ben.

3. Byddai Ysgol Filfeddygaeth y Brifysgol, a drefnir ar y cyd â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol, yn cael ei lansio'n swyddogol gan Brif Swyddog Milfeddygol Llywodraeth Cymru ar 28 Chwefror 2020. Penodwyd Pennaeth i'r Ysgol newydd, ac roedd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gobeithio cychwyn yn y swydd yn y dyfodol agos.

4. Rhoddwyd sylw yn y wasg yn ddiweddar i'r defnydd o Gytundebau Peidio Datgelu yn y sector addysg uwch ym Mhrydain. Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Cyngor, dywedodd yr Is-Ganghellor nad oedd hi'n ymwybodol bod unrhyw gytundebau o'r fath wedi'u llofnodi gan y Brifysgol y tu allan i drefniadau arferol dileu swyddi.

4. Byddai'r Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus newydd yn gweithio deuddydd yr wythnos yng Nghaerdydd, er mwyn i'r Brifysgol allu cadw cyswllt â rhanddeiliaid allweddol sydd yn y brif ddinas.

48. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1920-084).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf ynghylch iechyd a diogelwch, wedi'i seilio ar yr adroddiad llawnach a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Ll&Ch ar 19 Mawrth 2020.

49. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) (COU1920-085).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.

2. Yng nghyfarfod Senedd UMAber ar 04 Tachwedd 2019, roedd aelodau UMAber wedi cytuno i lobïo'r Brifysgol ynglŷn ag ymgysylltu ag *Electronics Watch*, sef mudiad monitro hawliau llafur i'r diwydiant electronig ledled Ewrop. Eglurwyd bod y Brifysgol eisoes wedi ymgysylltu trwy gonsortiwm pwrpasu a ddefnyddir i gaffael cyfarpar electronig.

3. Holodd yr aelodau ynglŷn â'r trefniadau sydd gan UMAber ar gyfer myfyrwyr sy'n defnyddio'u cerbydau eu hunain ar faterion cysylltiedig â'r Undeb, ac ynglŷn â'r bysiau mini a reolir gan UMAber. Roedd y Brifysgol wedi cynnig copïau o'i *Llawlyfr Diogelwch Gyrwyr* i UMAber gan y gellid cymhwyso'r egwyddorion a nodir ynddo i UMAber.

50. MATERION ARIANNOL

1. <u>Diweddariad Ariannol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol, Mark Godsell (COU1920-086).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad ddisgrifiad o berfformiad ariannol y Brifysgol ar ddiwedd Chwarter 1 (31 Hydref 2019), yn ogystal â diweddariad am newidynnau allweddol perthnasol. Trafododd yr aelodau'r adroddiad chwarterol, a dywedwyd wrthynt mai'r rhagolygon oedd y byddai'r sefydliad yn cyflawni'r alldro cyllidebol y cytunwyd arno am y flwyddyn academaidd gyfredol.

2. Y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Mark Godsell; a'r Cyfrifydd Rheolaethol, Mark Davies (COU1920-087).

NODWYD

1. Roedd y Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd (CGC) yn cwmpasu sawl ffrwd gwaith, pob un ohonynt yn anelu i wella effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chynaliadwyedd ariannol y Brifysgol. Y tair prif ffrwd oedd: arbedion trwy newidiadau; datblygu gweledigaeth strategol; darparu cynllun strategol mwy hirdymor i'r Brifysgol.

2. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau y byddai arbedion o £11.8m yn awr yn cael eu gwneud o'i gymharu â'r targed gwreiddiol o £11.4m. Rhoddodd yr aelodau ystyriaeth fanwl i'r adroddiad, a oedd yn cynnig y dylid cau'r Cynllun Gweithredu Cynaliadwyedd yn ffurfiol, gan fod yr arbedion angenrheidiol wedi eu gwneud.

3. Llongyfarchwyd yr Is-Ganghellor ar ei harweiniad yn rhoi'r CGC ar waith yn llwyddiannus. Atgoffwyd yr aelodau serch hynny ei bod yn hollbwysig i'r Brifysgol barhau i gadw rheolaeth ar sylfaen gwaelodol ei chostau. Roedd y camau a gymerwyd yn rhan o'r CGC yn golygu hefyd ei bod nawr yn briodol i ddechrau rhoi gwelliannau busnes a diwylliannol ar waith yn y sefydliad.

4. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol wedi penderfynu terfynu cynllun Diswyddo Gwirfoddol cyfredol y Brifysgol i gyd-daro â phenderfyniad y Cyngor i gau'r CGC. Y teimlad oedd y byddai cau'r cynllun yn anfon neges bwysig i staff.

5. Dywedwyd wrth yr aelodau bod gwaith eisoes wedi dechrau ar arolwg 'gwersi a ddysgwyd' o'r broses CGC. Bydd adroddiad, y disgwylir iddo ganolbwyntio ar y prosesau yn ymwneud â chyflawni'r CGC, yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ll&Ch.

PENDERFYNWYD

6. Cau'n ffurfiol y rhaglen CGC yn ymwneud â chyflawni targed ariannol rheolaidd o £11.4m (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

51. MATERION STRATEGOL

1. Newidiadau i dargedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio (COU1920-088).

NODWYD

1. Gwnaed adolygiad 1-flwyddyn o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol y Brifysgol, a arweiniodd at gyfres o argymhellion i addasu rhai targedau ymestynnol, i newid perchnogaeth Weithredol rhai o'r Dangosyddion, ac i gyflwyno trefn godio newydd ar gyfer adrodd am y Dangosyddion.

2. Yn wreiddiol, cafodd yr adroddiad ei gyflwyno'n uniongyrchol i'r Cyngor ar 25 Tachwedd 2019. Ond, yn y cyfarfod hwnnw gofynnodd yr aelodau i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (A&Ph) archwilio'r newidiadau a argymhellwyd i dargedau'r Dangosyddion. Ystyriwyd yr adroddiad yn ei dro gan y Pwyllgor A&Ph mewn cyfarfod ar 30 Ionawr 2020.

3. Er bod y Pwyllgor A&Ph yn fodlon ar y cyfan â'r newidiadau arfaethedig, argymhellwyd y dylai targed yr israddedigion Cartref / UE aros fel y mae, ac y dylid cynnig targedau mwy ymestynnol i'r Dangosyddion lle'r oedd y Brifysgol eisoes yn cyrraedd ei thargedau.

4. Gan fod y CGC bellach wedi'i gwblhau'n ffurfiol, cydnabuwyd y dylai'r Brifysgol geisio arwain ymddygiad staff ar sail cyflawni Cynllun Strategol 2018-23 a'r Dangosyddion Perfformiad cysylltiedig.

PENDERFYNWYD

5. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i dargedau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol, yn amodol ar gadw'r targed fel y mae yn achos nifer yr israddedigion Cartref / UE (**GWEITHREDU:** Pennaeth Cynllunio).

6. Cynnig targedau diwygiedig, mwy ymestynnol yn achos y Dangosyddion lle'r oedd y Brifysgol eisoes yn cyrraedd ei thargedau (**GWEITHREDU:** Pennaeth Cynllunio).

2. <u>Dangosyddion Perfformiad Allweddol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio (COU1920-089).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn cyflwyno pwyntiau data cyfredol yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y cytunodd y Cyngor arnynt ar gyfer monitro cynnydd wrth gyflawni Cynllun Strategol y sefydliad.

52. PRYDLES Y FFRIDD/GARN

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Darllenydd ym maes Ecosystemau Amaethyddol yr Ucheldiroedd (COU1920-090).

NODWYD

1. Yn wreiddiol, cymerodd y Brifysgol brydles 12 mlynedd ar Bwllpeiran gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2013. Cododd cyfle nawr i gymryd prydles bellach am ddarn tir y Ffridd/Garn nesaf at Bwllpeiran.

2. Er i'r cynnig fod yn destun trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a'r Brifysgol ers cyfnod maith, ni ddaethpwyd i gytundeb ffurfiol hyd yn hyn. Eto i gyd, roedd tir y Ffridd/Garn eisoes wedi'i ddefnyddio i waith maes gan fyfyrwyr IBERS a Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear.

3. Cafodd y mater ei ystyried gan y Pwyllgor A&Ph ar 30 Ionawr 2020, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor gymeradwyo'r brydles, yn amodol ar eglurhad ynglŷn â'r angen i drwsio rhan o ffens. Cafwyd sicrhad ers hynny y gellid gosod y gwaith trwsio angenrheidiol yn erbyn y rhent blynyddol arfaethedig.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r cynnig i gymryd prydles bellach gan Lywodraeth Cymru am ddarn tir y Ffridd/Garn, i redeg yn gyfochrog â gweddill y brydles ddaliad ar Bwllpeiran (**GWEITHREDU:** Y Darllenydd ym maes Ecosystemau Amaethyddol yr Ucheldiroedd).

53. MATERION POLISI

1. <u>Diwygiadau i Waddolion</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni; a'r Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham (COU1920-091).

NODWYD

1. Cynigiai'r adroddiad ddiwygiadau i delerau dau waddoliad cyfyngedig - a byddai angen cymeradwyaeth gan y Comisiwn Elusennau ar gyfer y ddau - yn ogystal â chau Cronfa Ymgyrch Waddoliadau lle'r oedd yr arian a godwyd wedi'i ymrwymo yn unol â'r telerau a fynegwyd i'r rhoddwyr wrth sefydlu'r Gronfa.

2. Ystyriwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor A&Ph ar 30 Ionawr 2020 lle'r argymhellodd yr aelodau y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r cynigion, yn amodol ar gael gwybod a ddylai myfyrwyr Meistr a PhD fod yn gymwys am gymorth o Gronfa Ysgoloriaeth Peter Hancock yn y dyfodol. Cadarnhawyd y byddai myfyrwyr o'r fath yn gymwys am gymorth.

PENDERFYNWYD

3. Cytuno i (**GWEITHREDU:** Y Cyfrifydd Ariannol Dros dro Alan Graham):

    1. cysylltu â'r Comisiwn Elusennau i gael cytundeb yn achos Cronfa Ysgoloriaeth Glyn Rowlands;

    2. cysylltu â'r Comisiwn Elusennau i gael ei gytundeb i ddiwygio telerau Cronfa Ysgoloriaeth Peter Hancock; a

    3. cau Cronfa Ymgyrch Waddoliadau 1997 yn ffurfiol.

2. <u>Polisi Derbyn Rhoddion</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Datblygu a Chysylltiadau Alumni; ac Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1920-092).

NODWYD

1. Cafodd Polisi'r Brifysgol ar Dderbyn Rhoddion ei ddiwygio ddiwethaf ym Mehefin 2017, a dylid bod wedi ei ddiwygio'r flwyddyn ddilynol. Ond, ni wnaed hynny oherwydd yr ad-drefnu sylweddol ledled y Brifysgol.

2. Cafodd y Polisi cyfredol ei adolygu bellach ac roedd nifer o fân newidiadau'n cael eu cynnig - yn bennaf i adlewyrchu newidiadau i swyddogaethau, i ddileu cyfeiriadau at gangen-gampws Mawrisiws, ac i ddiweddaru cyfeiriadau at gyhoeddiadau eraill.

3. Cafodd y diwygiadau arfaethedig eu hystyried a'u cadarnhau gan aelodau'r Pwyllgor A&Ph ar 30 Ionawr 2020.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig, yn amodol ar gynnwys manylyn a gafodd ei hepgor ym mhwynt 5.7 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

54. TRAFODAETH STRATEGOL: ADNODDAU DYNOL

DERBYNIWYD

Cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU1920-097).

NODWYD

1. Rhoddodd y cyflwyniad ystadegau ynglŷn â gweithlu ac arferion cyflogaeth y Brifysgol, y strategaethau a oedd yn cael eu gweithredu, a'r materion a oedd yn cael eu trafod â chynrychiolwyr Undebau Llafur ar hyn o bryd.

2. Bwriad y cyflwyniad oedd ysgogi trafodaeth ymhlith aelodau'r Cyngor, ac fe gafodd ei drafod yn fanwl - yn enwedig yng nghyswllt y camau y gellid eu cymryd i ddatblygu'n Brifysgol sy'n perfformio'n uwch. Awgrymwyd y byddai awydd risg y Cyngor ar nifer o faterion yn dibynnu yn y pen draw ar hyd a lled y materion unigol ac enillion posibl.

3. Diolchwyd i Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol am ei gyflwyniad ystyrlon a diddorol. Byddai'r Pwyllgor Ll&Ch yn cael gwybod fel sy'n briodol am unrhyw ddatblygiadau pellach yn achos y materion a godwyd yn y cyflwyniad.

55. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU1920-093); a

2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU1920-094);

NODWYD

3. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

56. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys y canlynol (COU1920-095):

1. Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (30 Ionawr 2020); a

2. Pwyllgor Buddsoddiadau (15 Tachwedd 2019).

NODWYD

3. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau.